# PWYLLGOR CRAFFU ADFYWIO A DATBLYGU CYNALIADWY

**(O Bell Trwy Teams)**

**Aelodau sy'n Bresennol:** **Dydd Gwener, 25 Mehefin 2021**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd S.K.Hunt** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd R.L.Taylor** |
| **Cynghorwyr**: | D.Cawsey, C.J.Jones, H.N.James, S.M.Penry, S.Pursey, S.Rahaman, J.Evans a/ac S.A.Knoyle |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | C.Morris, S.Brennan, C.Plowman, N.Headon, L.Beynon a/ac M.Shaw |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr A.Wingrave a/ac P.D.Richards |

---

1. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfodydd canlynol:

- 16 Ebrill 2021
- 14 Mai 2021

2. **CRAFFU CYN PENDERFYNU**

Dewisodd y pwyllgor graffu ar yr eitemau canlynol ar agenda Bwrdd y Cabinet:

Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013: Ystyried y gofynion ar gyfer yr Ymgynghoriad ar y Map Rhwydwaith Teithio Llesol Drafft (MRhTLl) ar gyfer Castell-nedd Port Talbot a'r gweithdrefnau cyhoeddi/ymgynghori sydd i'w rhoi ar waith

Roedd yr adroddiad a ddosbarthwyd yn darparu Map Rhwydwaith Teithio Llesol (MRhTLl) drafft ar gyfer Castell-nedd Port Talbot i'r Aelodau ynghyd â'r gweithdrefnau ymgynghori ar gyfer yr ymgynghoriad arfaethedig sydd ar ddod.

Esboniodd swyddogion ei bod yn ofynnol adolygu MRhTLl y cyngor bob tair blynedd; bydd angen cyflwyno'r map i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo gan Weinidogion erbyn 31 Rhagfyr 2021. Nodwyd bod gan deithio llesol ystyr penodol yng Nghymru; roedd y llwybrau hyn ar gyfer teithiau pwrpasol beunyddiol i leoedd fel y gwaith a'r ysgol, ac nid oeddent yn cynnwys teithiau a wnaed at ddibenion hamdden neu gymdeithasol. Hysbyswyd yr Aelodau fod dwy elfen i'r map:

- Llwybrau presennol – y llwybrau a oedd eisoes yn bodloni safonau teithio llesol a bennwyd gan Lywodraeth Cymru a'r hyn y mae'r cyngor eisoes wedi rhoi cyhoeddusrwydd iddo fel llwybrau addas
- Llwybrau'r dyfodol – y llwybrau a oedd yn ddyheadau'r cyngor am y 15 mlynedd nesaf; yr oeddent naill ai'n welliannau i lwybrau sydd eisoes yn bod neu'n nodi llwybrau newydd i'w hychwanegu at y rhwydwaith

Tynnwyd sylw at y ffaith nad oedd ymrwymiad wedi'i roi ar y cyngor i ddarparu'r MRhTLl; yn hytrach, offeryn oedd hwn yn y bôn i wella'r gwaith o flaengynllunio llwybrau teithio llesol.

O ran y fethodoleg a ddefnyddiwyd, nodwyd bod yr MRhTLl wedi'i ddatblygu drwy'r cydweithio rhwng Sustrans ac Awdurdodau Lleol ar draws y rhanbarthau; roedd hyn yn sicrhau bod cysondeb o ran ymagwedd ar draws ffiniau gweinyddol gan fod y llwybrau teithio llesol yn cysylltu rhwng y Bwrdeistrefi Sirol.

Hysbyswyd y Pwyllgor fod y tîm wedi cynnal ymgynghoriad cychwynnol ar ddiwedd 2020/ddechrau 2021, sef cam cyntaf y broses; cafodd y tîm ymateb hynod o dda o hyn (derbyniwyd dros 2,500 o ymatebion). Soniwyd mai diben yr ymgynghoriad cychwynnol oedd ymgysylltu â'r cyhoedd a chael eu barn ynghylch yr hyn a oedd yn dda a'r hyn a oedd yn wael am y rhwydwaith yng Nghastell-nedd Port Talbot ar hyn o bryd.

Dywedodd swyddogion y bu archwiliad yn ddiweddar o'r llwybrau presennol sydd ar gael; Roedd 10 llwybr wedi'u hychwanegu at y rhestr o lwybrau presennol yn dilyn yr archwiliad. Nodwyd y bu elfen hefyd o gasglu gwybodaeth a mapio teithiau a oedd yn edrych ar ba deithiau oedd yn cael eu gwneud a beth oedd y mannau gadael a phen pob siwrne.

Esboniwyd mai cam olaf y fethodoleg fydd blaenoriaethu'r llwybrau, a fydd yn cael eu cwblhau ar ôl yr ymgynghoriad nesaf; bydd yn nodi'r

llwybrau a drefnwyd o ran dyheadau tymor byr, canolig a thymor hwy i'r cyngor.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r ffaith nad oedd y cyngor wedi ymrwymo i ddarparu MRhTLl. Mynegodd yr Aelodau bwysigrwydd egluro y byddai'r cyngor yn hoffi gweld pob llwybr yn cael ei ddarparu er nad oedd wedi ymrwymo i wneud hyn. Eglurodd swyddogion fod y cyngor wedi ymrwymo i wella'r rhwydwaith flwyddyn ar ôl blwyddyn, fel rhan o gynllun uchelgeisiol hirdymor, a oedd yn gysylltiedig â chynhyrchu'r map; yn ystod cyfarfod o'r Grŵp Cyfarwyddwyr Corfforaethol, teimlai'r Prif Swyddogion fod angen pwyslais ar y pwynt nad oedd y cyngor wedi ymrwymo i ddarparu'r pecyn llawn gan nad oedd y cyllid ar gyfer cyflawni'r cynllun wedi'i gynnwys o fewn cyllidebau presennol ac nad oedd gan y cyngor yr adnoddau i gyflawni'r holl ddyheadau a gynhwyswyd yn y cynllun.

Mynegodd yr Aelodau eu pryderon ynglŷn â chynnal a chadw llwybrau beicio sy'n cael eu rhannu ar hyn o bryd ar draws amryfal gyfrifoldebau ac adrannau, gan ddibynnu ar leoliad y llwybrau. Soniodd yr Aelod Cabinet dros Adfywio a Datblygu Cynaliadwy nad dyma'r unig faes lle'r oedd adrannau'n cydgyfarfod, a chadarnhaodd ei fod yn rhwystro llawer o brosesau.

O ran potensial derbyn cyllid cynnal refeniw, dywedodd yr Aelodau ei bod yn bwysig sicrhau bod unrhyw arian ychwanegol yn cael ei ddefnyddio yn y mannau cywir a'i flaenoriaethu'n gywir, gan fod cyllid yn cael ei rannu'n eithaf eang ar hyn o bryd. Esboniodd swyddogion fod cyllid yn broblem sylweddol a bod gwaith cynnal a chadw wedi creu pwysau wrth symud ymlaen; po fwyaf o lwybrau a gynhwyswyd o fewn y rhwydwaith teithio llesol,  mwyaf o waith cynnal a chadw yr oedd angen ei wneud. Soniodd swyddogion fod y ffordd y sefydlwyd cyllid Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn golygu nad oedd y cyngor yn derbyn arian refeniw i fodloni'r gofyniad hwnnw a dim ond gwariant cyfalaf yr oedd yn ei gael. O ran cyflawni'r cynlluniau, nodwyd bod y cyngor yn ddibynnol ar gyflawni'r cynllun drwy ddatblygu, boed yn uniongyrchol fel rhan o gynlluniau a gyflwynwyd, er drwy gyfraniadau Adran 106, neu fod ganddo'r llwybr i ennill cyllid drwy broses ymgeisio flynyddol gan Lywodraeth Cymru

Gofynnwyd a ellid rhoi mwy o bwysau ar Lywodraeth Cymru i gael mwy o gyllid er mwyn i'r cyngor gyflawni'r dyheadau a nodir yn y cynllun. Rhoddodd swyddogion eu sicrwydd eu bod mewn cysylltiad parhaus â Llywodraeth Cymru o ran cael mwy o gyllid i gyflawni'r agenda teithio llesol; Roedd Llywodraeth Cymru wedi darparu llawer

o gyllid neilltuedig dros y blynyddoedd diwethaf, ond byddai'r cyngor yn parhau i geisio gwariant cyfalaf a gwariant refeniw. Anogwyd yr Aelodau i gysylltu â'r Aelod Cabinet dros Gyllid gan fod ganddo gysylltiadau yn Llywodraeth Cymru a gallai lobïo am wahanol fathau o gyllid.

Gofynnodd yr Aelodau a fyddai gwelliannau i rai o'r llwybrau cludiant cyhoeddus, yn dilyn y cyhoeddiad a wnaed gan Lywodraeth Cymru y byddai mwy o arian yn cael ei glustnodi i Drafnidiaeth Cymru. Nodwyd y byddai angen cyfeirio'r ymholiad penodol hwn at y Pennaeth Peirianneg a Thrafnidiaeth, fodd bynnag o ran cynllunio a datblygu cludiant cynaliadwy, roedd yn hanfodol integreiddio'r elfennau trafnidiaeth a chreu lleoedd; roedd angen edrych ar gludiant a'r agenda teithio llesol gyda'i gilydd fel rhwydwaith integredig, yn hytrach nag ar wahân. Esboniwyd bod datblygiadau ar raddfa fwy yn gofyn am syniad ehangach o sut y byddai'r gwahanol elfennau'n cyd-fynd â'i gilydd; y cysylltiadau a'r cysylltwaith, nid yn unig o fewn y safle ei hun ond sut mae'r safle'n cysylltu â chymunedau o'i amgylch. Cadarnhaodd swyddogion y byddent yn gweithio gyda'r gwahanol adrannau trafnidiaeth o fewn yr Awdurdod ac yn edrych ar y Cynllun Datblygu Lleol.

Trafododd y Pwyllgor ddarparu beiciau trydan a'r hyn a ddisgwylir ohonynt. Nodwyd y byddai defnyddio beiciau trydan yn ehangu cwmpas y llwybrau y gellid eu defnyddio, ond roedd her i gael lefel sylweddol o gyllid gan Lywodraeth Cymru; hyd yma, canolbwyntiwyd ar yr ardaloedd adeiledig lle gellid sicrhau'r enillion uwch o deithio llesol. O ran MRhTLl Castell-nedd Port Talbot, sylweddololodd Swyddogion bwysigrwydd edrych ar sut y gellid gwella cysylltiadau mewn ardaloedd adeiledig ond hefyd sut y gellid gwella'r cysylltiadau rhwng aneddiadau, yn enwedig yng nghymunedau'r cymoedd; yr her wrth symud ymlaen oedd sut y byddai'n cael ei gyflawni. Ychwanegwyd y gallai'r beic trydan wella'r achos a'r cyfiawnhad i allu darparu'r llwybrau hirach.

Ar ôl i'r cyhoedd gymryd rhan yn yr ymgynghoriad, pwysleisiodd yr Aelodau bwysigrwydd sicrhau bod ymatebion Swyddogion mor gywir â phosib a'u bod yn cynnwys y manylion perthnasol er mwyn i'r cyhoedd ddeall safbwynt y cyngor mewn perthynas â llwybrau penodol. Aeth yr Aelodau ymlaen wedyn i ofyn a oedd rhestr flaenoriaeth ar gyfer darparu llwybrau, ac os felly, sut y sefydlwyd hyn. Mynegwyd pryderon arbennig ynglŷn â darparu llwybrau yng nghymunedau'r cymoedd.

Cadarnhaodd swyddogion fod elfen flaenoriaethu i'r fethodoleg, ar ôl yr ymgynghoriad a chyn i'r MRhTLl gael ei gyflwyno i'w gymeradwyo gan weinidogion, ac roedd y tîm yn blaenoriaethu'r cynlluniau'n ddyheadau tymor byr, canolig a hwy; roedd elfennau amrywiol yn gysylltiedig â chanfod beth oedd angen bod ar frig y rhestr flaenoriaethau gan gynnwys asesu'r gallu i gyflawni cynllun a chostau. Ychwanegwyd bod gan Lywodraeth Cymru fatrics i'w ddilyn a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i Swyddogion ymchwilio i ffactorau fel dwysedd y boblogaeth, y pellter i leoliad addysg, y pellter i safleoedd cyflogaeth, hamdden ac iechyd. Cadarnhaodd swyddogion y gallent ymchwilio i gwmpas y meini prawf a phenderfynu a allai meini prawf y cymoedd fod yn wahanol i'r rheini ar y coridorau arfordirol oherwydd y pryderon a fynegwyd gan aelodau.

Yn dilyn ymatebion swyddogion, cynhaliwyd trafodaeth fer mewn perthynas â'r Ganolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd. Dywedwyd bod potensial, er y tu allan i'r broses gynllunio, i ddefnyddio manteision cymunedol fel ffordd i Aelodau drafod â datblygwr; gellid ystyried hyn er mwyn helpu i ddarparu rhai o'r llwybrau nad ydynt efallai tua pen uchaf y rhestr flaenoriaethau.

Dywedwyd ei bod yn bwysig rheoli disgwyliadau'r cyhoedd ac anfon y negeseuon priodol mewn perthynas â theithio llesol. Soniodd swyddogion eu bod wedi cael trafodaethau'n ddiweddar â chydweithwyr yn y Tîm Cyfathrebu ynglŷn â hyrwyddo'r gwahanol raglenni gwaith; roedd gan y Tîm Cyfathrebu rôl bwysig o ran sicrhau bod y cyhoedd yn cael eu hysbysu'n gywir.

I gloi, dywedodd Swyddogion eu bod yn cydnabod y cyfyngiadau a phryderon yr Aelodau, a rhoesant sicrwydd bod teithio llesol yn rhywbeth y bydd y cyngor yn ymdrechu ac yn ymrwymo i'w wella drwy'r blynyddoedd; cafwyd ymrwymiad clir gan Lywodraeth Cymru a byddai'r cyngor yn ceisio bod mor uchelgeisiol â phosib.

Yn dilyn craffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet

## 3. BLAENRAGLEN WAITH

Nododd yr Aelodau'r Blaenraglen Waith Craffu Adfywio a Datblygu Cynaliadwy ar gyfer 2021/22.

Cytunwyd y dylid trefnu Gweithdy Blaenraglen Waith Craffu Adfywio a Datblygu Cynaliadwy ar gyfer cyfnod yr hydref.

**CADEIRYDD**